

**Cardiff Capital Region
Regional Cabinet Meeting**

9.30am-11.30am on Monday 15 March 2021
Remote Meeting using Microsoft Teams

Minutes

Leaders and Chief Executives

Cllr Nigel Daniels	Leader	Blaenau Gwent CBC
Michelle Morris	Managing Director	Blaenau Gwent CBC
Cllr Huw David (from 09:39)	Leader	Bridgend CBC
Cllr Sean Morgan	Deputy Leader	Caerphilly CBC
Cllr Huw Thomas, Vice Chair	Leader	Cardiff Council
Paul Orders	Chief Executive	Cardiff Council
Cllr Lisa Mytton	Leader	Merthyr Tydfil CBC
Ellis Cooper (from 09:46)	Chief Executive	Merthyr Tydfil CBC
Cllr Robert Greenland	Cabinet Member for Innovation, Enterprise & Leisure	Monmouthshire CC
Paul Matthews	Chief Executive	Monmouthshire CC
Cllr Jane Mudd	Leader	Newport CC
Beverly Owen	Chief Executive	Newport CC
Cllr Andrew Morgan	Leader	Rhondda Cynon Taf CBC
Chris Bradshaw	Chief Executive	Rhondda Cynon Taf CBC
Cllr Anthony Hunt, Chair	Leader	Torfaen CBC
Rachel Jowitt	Chief Officer	Torfaen CBC
Cllr Neil Moore (until 11:03)	Leader	Vale of Glamorgan Council
Rob Thomas (until 11:03)	Chief Executive	Vale of Glamorgan Council

Officers

Christopher Lee	Section 151 Officer	Accountable Body
Anil Hirani	Accountancy Manager	Accountable Body
Gareth Gates	Accountant	Accountable Body
James Williams	Solicitor	Accountable Body
Kellie Beirne	Director	Office of the CCR
Rhys Thomas	Chief Operating Officer	Office of the CCR
Nicola Somerville	Head of Inclusive Growth & Business Development	Office of the CCR
Hrjinder Singh	Head of Finance, Risk & Assurance	Office of the CCR
Robert O'Dwyer	Head of Infrastructure	Office of the CCR
Suzanne Chesterton	Marketing & Communications Lead	Office of the CCR
Nathan Llewellyn	Marketing & Communications Officer	Office of the CCR
Louise Corbett	Homes for the Region Programme Manager	Office of the CCR
Ali Merrifield	Project Support Officer	Office of the CCR

Nicola Butler	Business Development & Partnership Officer	Office of the CCR
Liz Fitzgerald (minutes)	Business Development & Partnership Officer	Office of the CCR

Observers

Ian Phillips (until 10:43)	Audit Lead	Audit Wales
Jenna Dillon (09:40-10:43)	Senior Project Delivery Manager – South East Wales	Welsh Government
Gareth Ashman (from 09:43)	Head Of Infrastructure	UK Government

Apologies

Mark Shephard	Chief Executive	Bridgend CBC
Cllr Philippa Marsden	Leader	Caerphilly CBC
Christina Harrhy	Chief Executive	Caerphilly CBC
Cllr Peter Fox, Vice Chair	Leader	Monmouthshire CC
Alison Ward	Chief Executive	Torfaen CBC

Recording of the meeting started at 09:34

1. Welcome and Apologies

Cllr Hunt opened the meeting and apologies were noted.

2. Declarations of Interest

- (1) Nicola Somerville declared an interest in Item 8 Homes for all the Region - Update and Indicative Shortlist for the Viability Gap Fund because she was the Chair of Newport City Homes but confirmed that she had not been involved in any of the decisions presented in the report.
- (2) Cllr Huw Thomas declared a non-pecuniary interest in Item 12 Report of the Investment Panel: Recommendations Logs and Project Updates because his wife works for one of the organisations under discussion.
- (3) Cllr Sean Morgan declared an interest should any matters pertaining to the CSC Foundry be discussed because he was a member of the CSC Foundry Board.

3. Minutes of the meeting held on 7 December 2020

The minutes of the meeting held on 7 December 2020 were agreed as a true and accurate record of the meeting as moved by Cllr A Morgan.

4. 2020/21 Month 10 Joint Committee Revenue Budget Monitoring Position

- (1) Christopher introduced the report and alerted Leaders to a typographical error in paragraph 5, which referred to the Month 10 actual expenditure incurred being £1,077,889; the correct figure was £1,074,972. The figure was shown correctly in

Table 1.

- (2) Cllr Hunt confirmed that Leaders noted the recommendation in the report.
- (3) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
 - noted the actual expenditure, income and projected full year out-turn position as at the 31st January 2021 (Month 10), against its approved 2020/21 Revenue Budget.

5. 2020/21 Annual Business Plan - Quarter 3 Performance Report

Appendix 4 to this report is exempt from publication because it contains such information as described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of sections 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

- (1) Kellie introduced the report.

Cllr David joined at 09:39; Jenna Dillon joined at 09:40

- (2) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr A Morgan and seconded by Cllr Moore.
- (3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Bridgend; Rhondda Cynon Taf; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Cardiff; Caerphilly; Newport*; Blaenau Gwent; Monmouthshire; Torfaen.

* Cllr Mudd recognised that recommendation 3 related to a later report on the agenda.

- (4) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
 1. noted the overall progress at Quarter 3 2020/21 including the budget position reported at Appendix 2;
 2. approved the Quarter 3 performance report and authorise the Director of the Cardiff Capital Region City Deal to formally submit the report, including supporting information to both UK and Welsh Governments, and other stakeholders as required, on behalf of the Regional Cabinet;
 3. noted the illustrative 'Highlight Report' attached at Appendix 8, which would form the basis of Programme Monitoring from 2021-22 onwards.

6. Proposed 2021/22 Joint Committee Revenue Budget and Revised City Deal Office Operating Structure

Gareth Ashman joined at 09:43

- (1) Christopher introduced the report.

Ellis Cooper joined at 09:46

- (2) Kellie detailed the reasons for the proposed increase in resources related to governance demands, policy requirements, the rapidly increasing investment programme and the requirement to introduce enhanced programme monitoring and evaluation. Recruitment would be proportionate and kept under review, with all resources within the top-slice envelope. Aside from the requirement for 10 core FTE permanent posts, because of the time-limits on the top-slice, the proposal was a temporary measure and would need to be reviewed in accordance with the evolution to a Corporate Joint Committee. Cllr Morgan stated his support and requested that Regional Cabinet were kept informed regarding the team and Kellie confirmed that the evolving structure would be included within quarterly performance reports.
- (3) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr A Morgan and seconded by Cllr Greenland.
- (4) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Bridgend; Rhondda Cynon Taf; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Cardiff; Caerphilly; Newport; Blaenau Gwent; Monmouthshire; Torfaen.
- (5) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
 - (1) approved the Joint Committee expenditure budget of £2,220,988 for 2021/22 as set out in Table 1 of this report;
 - (2) approved the proposed 2021/22 Annual Budget of £1,160,058, funded by the 10 local authority partner contributions as outlined in this report, to meet part of the Joint Committee costs and representing 5% increase from the previous year;
 - (3) approved that the balance (£1,060,930) of the Joint Committee costs be met from the Cardiff Capital Region Wider Investment Fund (namely that part of the HMT contributions referred to in this report as the 'WIF Top-Slice');
 - (4) approved the additional staffing requirements and the terms as set out in paragraphs 12-15 of this report.

7. Regional Transport Authority – Revisions to Metro Plus Programme

- (1) Kellie introduced the report and presented the series of issues and challenges impacting the scheme and the proposed option to take it forward. This would help resolve the funding issues and introduce a core performance culture to improve deliverability, viability and affordability. Kellie set out the current position re: ULEV, OLEV, 'try before you buy' and the delegation enacted to provide for the SWARCO contract, of £750,000 commitment, with the full support of the Regional Transport Authority and RTA, Chair. Kellie wished to record her thanks to Merthyr

Tydfil CBC for leading on the project on behalf of the region, noted by Cllr Mytton.

- (2) Cllr David noted that the RTA were fully supportive and committed to the schemes and thanked Clare Cameron and Roger Waters for their work.
- (3) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr David and seconded by Cllr Moore.
- (4) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Bridgend; Rhondda Cynon Taf; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Cardiff; Caerphilly; Newport; Blaenau Gwent; Monmouthshire; Torfaen.
- (5) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
 - 1) confirmed adoption of preferred Option 5 as a means of taking forward and modifying the Metro Plus programme in order to ensure it is fit for future purpose and capable of delivering for the whole of the region;
 - 2) noted the wider issues and challenges set in the report, which includes implementing a new schedule to each approved scheme, to drive the performance culture and the appointment of independent experts, Local Partnerships which will help bring independent rigour to the process and ensure all ten schemes are held to proper account;
 - 3) approved an extension of one year for the programme;
 - 4) agrees the amendment of the delegations approved on 12th September 2019 and notes application of the delegation under 'Metro Plus' for the ULEV scheme;
 - 5) agreed an additional allocation of £3m from the IIF Programme to match fund transport initiatives that meet the Metro Plus agenda to maximise new funding and delivery opportunities; and further agree the additional delegations as identified within the report;
 - 6) noted that ongoing monitoring of the programme will be featured within quarterly Highlight Reports and also actively reviewed by Chief Executives via Programme Board.

8. Homes for all the Region – Update and Indicative Shortlist for the Viability Gap Fund

Appendices 2, 3i & 3ii of this report are exempt from publication because they contain information of the kind described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of parts 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972. In all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

- (1) Kellie introduced the update report and noted the evaluation framework,

moderation and results of the indicative list and proposal to carry forward two of the schemes that had not passed the gateway process. A further report would be presented in June to confirm a final list.

- (2) Leaders discussed the item:
- the focus of the project was about individual sites being assessed when viable;
 - those sites which will not progress within the funding envelope should be brought up with Welsh Government to ascertain if co-funding was an option;
 - the Maesteg site was a major step forward as it was one of the largest sites in the Valleys. Welsh Government should also be alerted to the second site in Bridgend when discussions took place;
 - the list was indicative and there would be a further decision point before funds were committed, to ensure the fund was delivering as per the criteria and mission of the programme.
- (3) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr A Morgan moved and seconded by Cllr Moore.

Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Monmouthshire; Blaenau Gwent; Newport; Caerphilly; Cardiff; Merthyr Tydfil; Vale of Glamorgan; Rhondda Cynon Taf; Bridgend; Torfaen.

- (4) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
- 1) noted the receipt of applications to its Housing Viability Gap Fund and that the evaluation process has now been concluded in line with the evaluation framework approved by Regional Cabinet in September 2020;
 - 2) approved the proposed indicative shortlist of schemes in respect of the CCR Base Fund as set out in Exempt Appendix 2 together with the reserve list of schemes also detailed within that appendix, to allow further due diligence to be completed and noting that a further report will be brought back to Regional Cabinet to consider the final list of schemes;
 - 3) approved the proposed indicative shortlist of schemes in respect of the Welsh Government Fund as set out in Exempt Appendix 3i together with the reserve list of schemes also detailed within that appendix, to allow further due diligence to be completed and noting that a further report will be brought back to Regional Cabinet to consider the final list of schemes;
 - 4) noted the potential increase required to CCR funding of £72,084 to £30,072,084 in order to meet the potential shortfall identified in this report;
 - 5) noted the option set out in the report in respect of the 2 additional schemes and approve an in-principle budget allocation of £7.8 million to support these schemes as set out in Exempt Appendix 3ii, noting that Cabinet supports the Portfolio Member approaching Welsh Government to seek a contribution towards the additional allocation, particularly given the

opportunity to effect improved prosperity in low competitiveness areas that will be hit hard by the COVID-19 pandemic;

- 6) noted the position in respect of Viability Gap Fund revenue support budget and that an update report will be brought back to Regional Cabinet in the future in this regard;
- 7) noted the update and ongoing work in respect of the SME Housing Fund and associated timescales set out in this report.

9. Investment Prospectus ‘Prosperity in our Place’ and Strategic Rail Priorities

- (1) Kellie presented the report and the key publications. Leaders welcomed the timely report and noted their thanks to Prof Mark Barry.
- (2) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr David and seconded by Cllr A Morgan.
- (3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Monmouthshire; Blaenau Gwent; Newport; Caerphilly; Cardiff; Merthyr Tydfil; Vale of Glamorgan; Rhondda Cynon Taf; Bridgend; Torfaen.
- (4) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
 - 1) noted and endorsed the Investment Prospectus and Passenger Rail Vision as key planks of CCR’s case for levelling-up and the complementarity with the Welsh Government Framework for Regional Investment in Wales; and,
 - 2) approved the key components of the Plan for engaging and communicating the documents in order to maximise exposure and chances of success, in ensuring CCR is able to access all funds and investment available to it.

10. Self-Evaluation of Investment and Intervention Framework (including Audit Wales Investment and Intervention Framework Review)

- (1) Kellie introduced the report and said the next steps would be to implement the recommendations. Ian Phillips spoke briefly to confirm that two projects had been examined, one in real time and one retrospectively, and both had progressed in line with the correct procedures and governance parameters. Many strengths had been observed with only minor areas highlighted for improvement. Ian said that the Terms of Reference for the Investment Panel had been amended and this was a positive step.
- (2) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr David and seconded by Cllr A Morgan.
- (3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Bridgend; Rhondda Cynon Taf; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Cardiff; Caerphilly; Newport; Blaenau Gwent; Monmouthshire; Torfaen.

- (4) It was unanimously resolved that the CCR Regional Cabinet:
- 1) noted and endorsed the IIF self-evaluation review; and, the Audit Wales IIF Review and noted the proposed Implementation Plan as a means of adapting the approach and providing high levels of future assurance;
 - 2) noted the wider context and developments needed to complement the review findings and implementation and receipt of commensurate and future reports on Risk, Responsible Investing, Programme Monitoring and Governance.

11. Governance Update – Future Programme Monitoring and Reporting

- (1) Kellie presented the report. The governance structure had evolved significantly since the inception of the City Deal agreement. The restructure would address local performance, data challenges, and risk and issues in reporting to Portfolio Leads. Kellie confirmed that nothing would change in respect of democratic accountability; Leaders would continue to receive publically-accessible reports for approval. This was an overall enhancement to the process and a means of improving accountability at portfolio level.
- (2) The motion to deal with the recommendations of the report was moved by Cllr Moore and seconded by Cllr A Morgan.
- (3) Cllr Hunt obtained individual votes of acceptance from Leaders in the following order: Bridgend; Rhondda Cynon Taf; Vale of Glamorgan; Merthyr Tydfil; Cardiff; Caerphilly; Newport; Blaenau Gwent; Monmouthshire; Torfaen.
- (4) It was resolved that the CCR Regional Cabinet:
 - 1) noted and endorsed the proposals set out in the report for the evolution of CCR governance structures in line with the scale-up phase of programme delivery;
 - 2) noted and approved the full Terms of References and proposed delegations for the Challenge Fund Strategic Board;
 - 3) noted the illustrative Highlight Report on the Housing Viability Gap Fund and approved the new proposed arrangements for programme monitoring;
 - 4) authorised the delegation of authority to the Regional Director to take any action or decisions necessary at her discretion to implement the Challenge Fund business case presented to Regional Cabinet in October 2020, and to automatically authorise further delegation of this authority to such person or group at the Regional Director's discretion.

Recording of the meeting ended at 10:43

The discussions below are exempt from publication because they contain information of the kind described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of

any particular person) and 21 (public interest test) of parts 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

12. Report of the Investment Panel: Recommendations Logs and Project Updates

This report and appendices 1 and 2 to this report are exempt from publication because they contain information of the kind described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of parts 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

- (1) Rhys introduced the report.

Cllr Moore and Rob Thomas left at 11:03

- (2) The motion to deal with the recommendations of the exempt report was moved by Cllr David and seconded by Cllr A Morgan.
- (3) It was resolved that the CCR Regional Cabinet accepted the recommendations of the exempt report.

13. Strategic Premises Fund

This report and appendices 1-3 to this report are exempt from publication because they contain information of the kind described in paragraphs 14 (information relating to the financial or business affairs of any particular person) and 21 (public interest test) of parts 4 and 5 of Schedule 12A to the Local Government Act 1972 and in all the circumstances of the case the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information

- (1) Rhys introduced the report.

Cllr Moore re-joined at 11:14

- (2) It was resolved that the CCR Regional Cabinet accepted the recommendations of the exempt report.



**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Cyfarfod y Cabinet Rhanbarthol**

09.30am-11.30am ddydd Llun 15 Mawrth 2021
Cyfarfod o Bell yn defnyddio Microsoft Teams

Cofnodion

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr

Y Cynghorydd Nigel Daniels	Arweinydd	CBS Blaenau Gwent
Michelle Morris	Rheolwr Gyfarwyddwr	CBS Blaenau Gwent
Y Cynghorydd Huw David (o 09:39)	Arweinydd	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cyng. Sean Morgan	Dirprwy Arweinydd	CBS Caerffili
Y Cynghorydd Huw Thomas, Is-gadeirydd	Arweinydd	Cyngor Caerdydd
Paul Orders	Prif Weithredwr	Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Lisa Mytton	Arweinydd	CBS Merthyr Tudful
Ellis Cooper (o 09:46)	Prif Weithredwr	CBS Merthyr Tudful
Y Cynghorydd Robert Greenland	Aelod Cabinet dros Arloesi, Menter a Hamdden	Cyngor Sir Fynwy
Paul Matthews	Prif Weithredwr	Cyngor Sir Fynwy
Y Cynghorydd Jane Mudd	Arweinydd	Cyngor Dinas Casnewydd
Beverly Owen	Prif Weithredwr	Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd Andrew Morgan	Arweinydd	CBS Rhondda Cynon Taf
Chris Bradshaw	Prif Weithredwr	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cadeirydd	Arweinydd	CBS Torfaen
Rachel Jowitt	Prif Swyddog	CBS Torfaen
Y Cynghorydd Neil Moore (tan 11:03)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (tan 11:03)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg

Swyddogion

Christopher Lee	Swyddog Adran 151	Corff Atebol
Anil Hirani	Rheolwr Cyfrifeg	Corff Atebol
Gareth Gates	Cyfrifydd	Corff Atebol
James Williams	Cyfreithiwr	Corff Atebol
Kellie Beirne	Cyfarwyddwr	Swyddfa P-RC
Rhys Thomas	Prif Swyddog Gweithredol	Swyddfa P-RC
Nicola Somerville	Pennaeth Twf Cynhwysol a Datblygu Busnes	Swyddfa P-RC
Hrjinder Singh	Pennaeth Cyllid, Risg a Sicrwydd	Swyddfa P-RC
Robert O'Dwyer	Pennaeth Seilwaith	Swyddfa P-RC
Suzanne Chesterton	Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu	Swyddfa P-RC

Nathan Llewellyn	Swyddog Marchnata a Chyfathrebu	Swyddfa P-RC
Louise Corbett	Rheolwr Rhaglen Cartrefi i'r Rhanbarth	Swyddfa P-RC
Ali Merrifield	Swyddog Cymorth Prosiectau	Swyddfa P-RC
Nicola Butler	Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau	Swyddfa P-RC
Liz Fitzgerald (cofnodion)	Swyddog Datblygu Busnes a Phartneriaethau	Swyddfa P-RC

Sylwedyddion

Ian Phillips (tan 10:43)	Arweinydd Archwilio	Swyddfa Archwilio Cymru
Jenna Dillon (09:40-10:43)	Uwch-reolwr Cyflawni Prosiectau - De-ddwyrain Cymru	Llywodraeth Cymru
Gareth Ashman (o 09:43)	Pennaeth Seilwaith	Llywodraeth y DU

Ymddiheuriadau

Mark Shephard Y Cynghorydd Philippa Marsden	Prif Weithredwr Arweinydd	CBS Pen-y-bont ar Ogwr CBS Caerffili
Christina Harrhy Y Cynghorydd Peter Fox, Is-gadeirydd	Prif Weithredwr Arweinydd	CBS Caerffili Cyngor Sir Fynwy
Alison Ward	Prif Weithredwr	CBS Torfaen

Dechreuwyd recordio'r cyfarfod am 09:34

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Agorodd y Cynghorydd Hunt y cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Datgan Buddiannau

- (1) Datganodd Nicola Somerville fuddiant yn Eitem 8 - Cartrefi i'r Holl Ranbarth - Diweddariad a Rhestr Fer Ddangosol ar gyfer y Gronfa Ariannu Bylchau Hyfywedd, am ei bod yn Gadeirydd Cartrefi Dinas Casnewydd ond cadarnhaodd nad oedd wedi bod yn rhan o unrhyw un o'r penderfyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad.
- (2) Datganodd y Cynghorydd Huw Thomas fuddiant nad oedd yn ariannol yn Eitem 12, Adroddiad y Panel Buddsoddi: Cofnodion Argymhellion a Diweddariadau Prosiect oherwydd bod ei wraig yn gweithio i un o'r sefydliadau oedd yn cael eu trafod.
- (3) Datganodd y Cynghorydd Sean Morgan fuddiant pe bai unrhyw faterion yn ymwneud â CSC Foundry yn cael eu trafod oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd CSC Foundry.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2020 yn gofnod gwir a chywir fel y'u cynigiwyd gan y Cynghorydd A Morgan.

4. Sefyllfa Monitro Cyllideb Refeniw y Cydbwyllgor Mis 10 2020/21

- (1) Cyflwynodd Christopher yr adroddiad a rhybuddiodd yr Arweinwyr am wall teipograffyddol ym mharagraff 5, a oedd yn cyfeirio at wariant gwirioneddol Mis 10 fel £1,077,889; y ffigur cywir oedd £1,074,972. Dangoswyd y ffigur yn gywir yn Nhabl 1.
- (2) Cadarnhaodd y Cynghorydd Hunt fod yr Arweinwyr wedi nodi'r argymhelliad yn yr adroddiad.
- (3) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - nodi'r gwir wariant, incwm a'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar 31 Ionawr 2021 (Mis 10) yn erbyn ei Gyllideb Refeniw gymeradwy ar gyfer 2020/21.

5. Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 Cynllun Busnes Blynyddol 2020/21

Mae Atodiad 4 o'r adroddiad hwn wedi'i eithrio rhag cael ei gyhoeddi oherwydd ei fod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwysu budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad.

Ymunodd y Cynghorydd David am 09:39; ymunodd Jenna Dillon am 09:40

- (2) Cafodd y cynnig i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd A Morgan a'i eilio gan y Cynghorydd Moore.
- (3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerdydd; Caerffili; Casnewydd*; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; Torfaen.

* Sylwodd y Cynghorydd Mudd fod argymhelliad 3 yn ymwneud ag adroddiad diweddarach ar yr agenda.

- (4) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 1. nodi'r cynnydd cyffredinol yn Chwarter 3 2020/21 gan gynnwys sefyllfa'r gyllideb a adroddwyd yn Atodiad 2;

2. cymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 3 ac awdurdodi Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol, gan gynnwys gwybodaeth ategol i lywodraethau'r DU a Chymru, ac i randdeiliaid eraill yn ôl yr angen, ar ran y Cabinet Rhanbarthol;
3. nodi'r 'Adroddiad ar y Prif Bwyntiau' enghreifftiol sydd ynghlwm yn Atodiad 8, a fyddai'n sail i Fonitro Rhaglenni o 2021-22 ymlaen.

6. Cyllideb Refeniw Arfaethedig 2021/22 y Cydbwyllgor a Strwythur Gweithredu Diwygiedig Swyddfa'r Fargen Ddinesig

Ymunodd Gareth Ashman am 09:43

- (1) Cyflwynodd Christopher yr adroddiad.

Ymunodd Ellis Cooper am 09:46

- (2) Manylodd Kellie ar y rhesymau dros y cynnydd arfaethedig mewn adnoddau sy'n gysylltiedig â gofynion llywodraethu, gofynion polisi, y rhaglen fuddsoddi sy'n cynyddu'n gyflym a'r gofyniad i gyflwyno gwell monitro a gwerthuso ar raglenni. Byddai recriwtio yn gymesur ac yn cael ei adolygu'n barhaus, gyda'r holl adnoddau o fewn yr amlen frigidiant. Ar wahân i'r gofyniad am 10 swydd barhaol graidd cyfwerth ag amser llawn, oherwydd y terfynau amser ar y brigdorri, mesur dros dro oedd y cynnig a byddai angen ei adolygu yn unol ag esblygiad i Gyd-bwyllgor Corfforaethol. Nododd y Cynghorydd Morgan ei gefnogaeth a gofynnodd i'r Cabinet Rhanbarthol gael y wybodaeth ddiweddaraf am y tîm a chadarnhaodd Kellie y byddai'r strwythur sy'n esblygu yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau perfformiad chwarterol.
- (3) Cafodd y cynnig i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd A Morgan a'i eilio gan y Cynghorydd Greenland.
- (4) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerdydd; Caerffili; Casnewydd; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; Torfaen.
- (5) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - (1) cymeradwyo cyllideb gwariant y Cydbwyllgor o £2,220,988 ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad hwn;
 - (2) cymeradwyo Cyllideb Flynyddol arfaethedig 2020/21 o £1,160,058, wedi'i hariannu gan gyfraniadau'r 10 partner llywodraeth leol fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad hwn, i gwrdd â rhan o gostau'r Cydbwyllgor ac sy'n gynydd o 5% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol;
 - (3) cymeradwyo bod y balans (£1,060,930) o gostau'r Cydbwyllgor yn cael ei dalu o Gronfa Fuddsoddi Ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

(sef y rhan honno o gyfraniadau TEM y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn fel y 'Brig-doriad WIF').

- (4) cymeradwyo'r gofynion staffio ychwanegol a'r telerau fel y'u nodir ym mharagraffau 12-15 yr adroddiad hwn.

7. Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol – Diwygiadau i Raglen Metro+

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a chyflwynodd y gyfres o faterion a heriau sy'n effeithio ar y cynllun a'r opsiwn arfaethedig i'w ddatblygu. Byddai hyn yn helpu i ddatrys y problemau ariannu ac yn cyflwyno diwylliant perfformiad craidd i wella'r gallu i gyflawni, hyfywedd a fforddiadwyedd. Nododd Kellie y safbwynt presennol o ran: ULEV, OLEV, 'ceisiwch cyn ei brynu' a'r ddirprwyaeth a grëwyd i ddarparu ar gyfer contract SWARCO, ymrwymiad o £750,000, gyda chefnogaeth lawn yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chadeirydd yr ATRh. Roedd Kellie am gofnodi ei diolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am arwain ar y prosiect ar ran y rhanbarth, a nodwyd hyn gan y Cynghorydd Mytton.
- (2) Nododd y Cynghorydd David fod yr ATRh yn gwbl gefnogol ac ymroddedig i'r cynlluniau a diolchodd i Clare Cameron a Roger Waters am eu gwaith.
- (3) Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd David a'i eilio gan y Cynghorydd Moore.
- (4) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerdydd; Caerffili; Casnewydd; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; Torfaen.
- (5) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - 1) cadarnhau mabwysiadu Opsiwn 5 a ffefrir fel ffordd o fwrw ymlaen ac addasu rhaglen Metro+ er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben yn y dyfodol ac yn gallu cyflawni ar gyfer y rhanbarth cyfan;
 - 2) nodi'r materion a'r heriau ehangach a nodir yn yr adroddiad, sy'n cynnwys gweithredu amserlen newydd i bob cynllun cymeradwy, i yrru'r diwylliant perfformiad a phenodi arbenigwyr annibynnol, Partneriaethau Lleol a fydd yn helpu i ddod â thrylwyredd annibynnol i'r broses a sicrhau bod pob un o'r deg cynllun yn cael eu dwyn i gyfrif priodol;
 - 3) cymeradwyo estyniad o flwyddyn ar gyfer y rhaglen;
 - 4) cytuno ar ddiwygio'r dirprwyaethau a gymeradwywyd ar 12 Medi 2019 ac yn nodi cymhwyso'r ddirprwyaeth dan 'Metro+' ar gyfer y cynllun ULEV;
 - 5) cytuno ar ddyraniad ychwanegol o £3m o'r Rhaglen Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (FfBY) i roi arian cyfatebol i fentrau trafndiaeth sy'n bodloni agenda Metro+ i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu a darparu newydd;

a chytuno ymhellach ar y dirprwyaethau ychwanegol fel y nodwyd yn yr adroddiad;

- 6) nodi y bydd monitro parhaus ar y rhaglen yn cael ei gynnwys mewn Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau chwarterol a hefyd yn cael ei adolygu'n weithredol gan Brif Weithredwyr drwy gyfrwng Bwrdd y Rhaglen.

8. Cartrefi i'r Holl Ranbarth – Diweddariad a Rhestr Fer Ddangosol gyfer Y Gronfa Ariannu Bylchau Hyfywedd

Mae atodiadau 2, 3i a 3ii o'r adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn holl amgylchiadau'r achos, ystyrir bod budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad diweddar a nododd fframwaith gwerthuso, cymedroli a chanlyniadau'r rhestr ddangosol a'r cynnig i ddatblygu dau o'r cynlluniau nad oeddent wedi pasio proses y porth. Byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin i gadarnhau rhestr derfynol.
- (2) Trafododd yr arweinwyr yr eitem:
 - roedd ffocws y prosiect yn ymwneud â safleoedd unigol yn cael eu hasesu pan fyddant yn hyfyw;
 - dylid trafod y safleoedd hynny na fyddant yn symud ymlaen o fewn yr amlen ariannu gyda Llywodraeth Cymru i ganfod a oedd cyd-ariannu yn opsiwn;
 - roedd safle Maesteg yn gam mawr ymlaen gan ei fod yn un o'r safleoedd mwyaf yn y Cymoedd. Dylid tynnu sylw Llywodraeth Cymru hefyd at yr ail safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr pan fyddai trafodaethau'n cael eu cynnal;
 - roedd y rhestr yn ddangosol a byddai penderfyniad yn cael ei wneud maes o law cyn ymrwymo arian, er mwyn sicrhau bod y gronfa'n cyflawni yn unol â meini prawf a chenhadaeth y rhaglen.
- (3) Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd A Morgan a'i eilio gan y Cynghorydd Moore.

Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Casnewydd; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful, Bro Morgannwg; Rhondda Cynon Taf; Pen-y-bont ar Ogwr; Torfaen.

- (4) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - 1) nodi derbyn ceisiadau i'w Gronfa Ariannu Bylchau Hyfywedd Tai a bod y broses werthuso bellach wedi'i chwblhau yn unol â'r fframwaith gwerthuso a gymeradwywyd gan y Cabinet Rhanbarthol ym mis Medi 2020;
 - 2) cymeradwyo'r rhestr fer ddangosol arfaethedig o gynlluniau mewn perthynas â Chronfa Sylfaen P-RC fel y nodir yn Atodiad 2 Eithriedig

ynghyd â'r rhestr wrth gefn o gynlluniau a fanylir arnynt hefyd yn yr atodiad hwnnw, er mwyn caniatáu cwblhau diwydrwydd dyladwy pellach a nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet Rhanbarthol i ystyried y rhestr derfynol o gynlluniau;

- 3) cymeradwyo'r rhestr fer ddangosol arfaethedig o gynlluniau mewn perthynas â Chronfa Llywodraeth Cymru fel y nodir yn Atodiad 3i Eithriedig ynghyd â'r rhestr wrth gefn o gynlluniau a fanylir arnynt hefyd yn yr atodiad hwnnw, er mwyn caniatáu cwblhau diwydrwydd dyladwy pellach a nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Cabinet Rhanbarthol i ystyried y rhestr derfynol o gynlluniau;
- 4) nodi'r cynnydd posibl sy'n ofynnol i arian P-RC o £72,084 i £30,072,084 er mwyn bodloni'r diffyg posibl a nodwyd yn yr adroddiad hwn;
- 5) nodi'r opsiwn a nodir yn yr adroddiad mewn perthynas â'r 2 gynllun ychwanegol a chymeradwyo dyraniad cyllideb mewn egwyddor o £7.8 miliwn i gefnogi'r cynlluniau hyn fel y nodir yn Atodiad 3ii Eithriedig, gan nodi bod y Cabinet yn cefnogi'r Aelod Portffolio wrth iddo gysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio cyfraniad tuag at y dyraniad ychwanegol, yn enwedig o ystyried y cyfle i sicrhau gwell ffyniant mewn ardaloedd cystadleuol isel a fydd yn cael eu taro'n galed gan bandemig COVID-19;
- 6) nodi'r sefyllfa o ran cyllideb cymorth refeniw'r Gronfa Bylchau Hyfywedd ac y bydd adroddiad diweddarau yn cael ei ddwyn yn ôl gerbron y Cabinet Rhanbarthol yn y dyfodol yn hyn o beth;
- 7) nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r Gronfa Tai BBaCh a'r amserlenni cysylltiedig a nodir yn yr adroddiad hwn.

9. **Prosbectws Buddsoddi 'Ffyniant yn ein Lle' a Blaenoriaethau Rheilffyrdd Strategol**

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a'r cyhoeddiadau allweddol. Croesawodd yr arweinwyr yr adroddiad amserol a nodwyd eu diolch i'r Athro Mark Barry.
- (2) Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd David a'i eilio gan y Cynghorydd A Morgan.
- (3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Sir Fynwy; Blaenau Gwent; Casnewydd; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful, Bro Morgannwg; Rhondda Cynon Taf; Pen-y-bont ar Ogwr; Torfaen.
- (4) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - 1) nodi a chymeradwyo'r Prosbectws Buddsoddi a Gweledigaeth Rheilffyrdd Teithwyr fel elfennau allweddol o achos P-RC dros lefelu a'r cydategu â

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru; a

- 2) chymeradwyo elfennau allweddol y Cynllun ar gyfer ymgysylltu â'r dogfennau a'u cyfathrebu er mwyn sicrhau'r amlygiad mwyaf posibl a'r siawns o lwyddo, er mwyn sicrhau bod P-RC yn gallu cael gafael ar yr holl gronfeydd a buddsoddiad sydd ar gael iddo.

10. Hunanwerthuso'r Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd (gan gynnwys Adolygiad o Fframwaith Buddsoddi ac Ymyrryd Archwilio Cymru)

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad a dywedodd mai'r camau nesaf fyddai gweithredu'r argymhellion. Siaradodd Ian Phillips yn fyr i gadarnhau bod dau brosiect wedi'u harchwilio, un mewn amser real ac un yn ôl-weithredol, ac roedd y ddau wedi symud ymlaen yn unol â'r gweithdrefnau a'r paramedrau llywodraethu cywir. Gwelwyd llawer o gryfderau gyda dim ond mân feysydd wedi'u hamlygu i'w gwella. Dywedodd Ian fod Cylch Gorchwyl y Panel Buddsoddi wedi'i ddiwygio a bod hwn yn gam cadarnhaol.
- (2) Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad ei roi gerbron gan y Cynghorydd David a'i eilio gan y Cynghorydd A Morgan.
- (3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerdydd; Caerffili; Casnewydd; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; Torfaen.
- (4) Penderfynwyd yn unfrydol bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
 - 1) nodi a chymeradwyo adolygiad hunanwerthuso'r FfBY ac Adolygiad FfBY Archwilio Cymru a nodi'r Cynllun Gweithredu arfaethedig fel ffordd o addasu'r dull gweithredu a darparu lefelau uchel o sicrwydd yn y dyfodol;
 - 2) nodi'r cyd-destun ehangach a'r datblygiadau sydd eu hangen i ategu canfyddiadau'r adolygiad a gweithredu a derbyn adroddiadau cymesur ac adroddiadau yn y dyfodol ar Risg, Buddsoddi Cyfrifol, Monitro Rhaglenni a Llywodraethu.

11. Diweddariad Llywodraethu - Monitro ac Adrodd ar Raglenni yn y Dyfodol

- (1) Cyflwynodd Kellie yr adroddiad. Roedd y strwythur llywodraethu wedi esblygu'n sylweddol ers dechrau cytundeb y Fargen Ddinesig. Byddai'r ailstrwythuro'n mynd i'r afael â pherfformiad lleol, heriau data, a risg a materion wrth adrodd i Arweinwyr Portffolio. Cadarnhaodd Kellie na fyddai unrhyw beth yn newid o ran atebolrwydd democrataidd; Byddai'r arweinwyr yn parhau i dderbyn adroddiadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, i'w cymeradwyo. Roedd hyn yn welliant cyffredinol i'r broses ac yn ffordd o wella atebolrwydd ar lefel portffolio.
- (2) Cafodd y cynnig i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ei gyflwyno gan y Cynghorydd A Moore a'i eilio gan y Cynghorydd A Morgan.

- (3) Derbyniodd y Cynghorydd Hunt bleidleisiau unigol gan yr Arweinwyr eu bod yn derbyn, yn y drefn ganlynol: Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg; Merthyr Tudful; Caerdydd; Caerffili; Casnewydd; Blaenau Gwent; Sir Fynwy; Torfaen.
- (4) Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn:
- 1) nodi a chymeradwyo'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer esblygiad strwythurau llywodraethu P-RC yn unol â chyfnod codi graddfa darparu rhaglenni;
 - 2) nodi a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl llawn a dirprwyaethau arfaethedig ar gyfer Bwrdd Strategol y Gronfa Her;
 - 3) nodi'r Adroddiad ar y Prif Bwyntiau enghreifftiol ar y Gronfa Bylchau Hyfywedd Tai a chymeradwyo'r trefniadau arfaethedig newydd ar gyfer monitro rhaglenni;
 - 4) awdurdodi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol i gymryd unrhyw gamau neu benderfyniadau sy'n angenrheidiol yn ôl ei disgresiwn i weithredu achos busnes y Gronfa Her a gyflwynwyd i'r Cabinet Rhanbarthol ym mis Hydref 2020, ac i awdurdodi dirprwyo'r awdurdod hwn ymhellach yn awtomatig i'r cyfryw berson neu grŵp yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Rhanbarthol.

Rhodddwyd y gorau i recordio'r cyfarfod am 10.43.

Mae'r trafodaethau isod wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) rhannau 4 a 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwysu budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

12. Adroddiad y Panel Buddsoddi: Argymhellion, Cofnodion a'r Diweddaraf ar Brosiectau

Mae'r adroddiad hwn ac atodiadau 1 a 2 yr adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwysu budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

- (1) Cyflwynodd Rhys yr adroddiad.

Gadawodd y Cynghorydd Moore a Rob Thomas am 11:03

- (2) Cafodd y cynnig i ddelio ag argymhellion yr adroddiad eithriedig ei roi gerbron gan y Cynghorydd David a'i eilio gan y Cynghorydd A Morgan.
- (3) Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn derbyn argymhellion yr adroddiad a eithriwyd.

13. Cronfa Adeiladau Strategol

Mae'r adroddiad hwn ac atodiadau 1-3 o'r adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwysu budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

- (1) Cyflwynodd Rhys yr adroddiad.

Ail-ymunodd y Cynghorydd Moore am 11:14

- (2) Penderfynwyd bod Cabinet Rhanbarthol P-RC yn derbyn argymhellion yr adroddiad a eithriwyd.